

Gair bendigedig

“Nid yw’r Arglwydd yn oedi cyflawni ei addewid...; bod yn amyneddgar wrthych y mae, am nad yw’n ewyllysio i neb gael ei ddirnstrio, ond i bawb ddod i edifeirwch.” (adn. 9)

Beth am ddarllen 2 Pedr 3:1–18 ac yna myfyrio

Heddiw, yr ydym am ofyn y cwestiwn: Pan lefarodd Duw wrth yr eglwys yn Antiochia, beth yn union ddywedodd Duw? Dyma a ddywedodd: “Neilltuwch yn awr i mi Barnabas a Saul, i’r gwaith yr wyf wedi eu galw iddo.” (Actau 13:2). Y gwaith o efengylu oedd y gwaith yma. Roedd y ddau ddyn yma yn cynrychioli ymdrech yr eglwys i gyrraedd eneidiau yn y byd paganaid. Wrth ddanfôn Paul a Barnabas allan, gwelwn yr eglwys yn Antiochia yn cymryd ei sandalau, gan gerdded i mewn i’r byd, y byd oedd mewn angen am y newyddion da am Iesu Grist.

Mae efengylu yn flaenoriaeth gyda Duw. Yn wir, buaswn yn barod i ddweud fod eglwys sydd heb ddiddordeb mewn ennill eneidiau yn eglwys y tu allan i ewyllys Duw. Er fy mod wedi defnyddio’r ymadrodd yma o’r blaen, mae yna bob amser ddarllenwyr newydd i ‘Pob Dydd gyda Iesu’. Caniatewch i mi ddweud eto: mae yna ddau ddarlun sydd yn disgrifio ennill eneidiau yn y Testament Newydd – y naill yn ddarlun o bysgotwr a’r llall yn ddarlun o fugail. Felly, rhaid ennill eneidiau trwy eu bachu, neu hefo’r ffon fugail. Os oedd yr eglwys yn Antiochia i gyflawni ei gwaith, yr oedd yn rhaid iddi efengylu. Roedd yn rhaid wrth raglen genhadol. Heb yr efengylu yma, ni fyddai ei chalon yn curo yn iach.

Nid yw neges Duw i’r Eglwys ar ddechrau yr unfed ganrif ar hugain yn wahanol i’r neges a roes yn y ganrif gyntaf. Nid yw y byd wedi newid. Mae llawer o eglwysi sydd â’u calon yn curo yn glaf iawn. Y rheswm am hyn yw nad ydynt yn ymestyn allan trwy efengylu. Gallaf eich sicrhau, pan fo Duw yn llefaru wrth ei Eglwys trwy ei Ysbryd, un o’r pethau y bydd yn siŵr o ddweud yw’r angenrheidrwydd am efengylu. Dyma air bendigedig Duw.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 62:6; Esec.3:15–21; 33:1–19; Actau 20:25–27

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw cyfrifoldebau’r gwylidydd?
2. Sut mae Duw yn ystyried gwylidydd tawedog?

Gweddi

O Dduw, maddau i ni fod ein tawelwch yn peri ein bod yn euog yn dy olwg di, oherwydd ein gwrthodiad i rannu ag eraill yr hyn yr wyt wedi ei wneud yn ein bywyd. Yn enw Iesu, rydym yn gofyn i ti faddau i ni ac i adnewyddu ynom faich dros eneidiau. Amen.